



Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 8FED TACHWEDD, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gelfyddyd (Arts Room), Theatr y Ddraig, Ffordd Jubilee,  
Abermaw, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWDYD: 01/11/16)

## **AELODAETH:**

### **Cyngor Gwynedd:**

Gethin Glyn Williams  
Louise Hughes  
Eryl Jones-Williams

Aelod Lleol Abermaw  
Aelod Lleol Llangelynnin  
Aelod Lleol Dyffryn Ardudwy

### **Aelodau Cyfetholedig:**

Mike Ellis  
Cynghorydd R A Williams  
Cynghorydd Julian Kirkham  
Dr John Smith  
Wendy Ponsford  
John Johnson

Mark James  
Martin Parouty

Aelod Pwyllgor Ras y Tri Chopa  
Barmouth Resort Improvement Group  
Cyngor Cymuned Arthog  
Grwp Mynediad Traphont Abermaw  
Clwb Hwyllo Meirionnydd  
Cymdeithas Pysgodfeydd Mor Abermaw a  
Bae Ceredigion  
Sefydliad y Bad Achub  
Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw a'r  
Foryd

### **Sylwedyddion:**

Cynghorydd Mandy Williams-Davies  
Cynghorydd r David Richardson  
Dr John Jones-Morris  
Cynghorydd Michael Sol Owen

Aelod Cabinet – Economi  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd I'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016-17.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016-17.

## 3. YMDDIHEURIADAU

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

## 5. COFNODION

5 - 10

I dderbyn cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016.

(Copi'n amgaaedig)

## 6. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG 11 - 25

I ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL 26

(a) Adroddiad ar Gynllun Rheoli Pwynt Penrhyn – Cyngor Cymuned Arthog

(b) Cynllun Busnes (Cynllun Datblygu'r Harbwr) – Cyng. Rob Triggs

(c) Polyn a sbigyn peryg yn Harbwr Aberamffra

(ch) Diweddariad ynglyn a sefyllfa tywod

(d) Bagiau Tywod / Giat ar frig y llithrfa

(dd) Gorsaf Danwydd Petrol

(e) Angorfeydd

(f) Bysedd y Pontwn

(ff) Pysgod Marw

(Copi o fanylion (dd) i (ff) yn amgaaedig)

## **8. PROSIECTAU GWASANAETHAU ABERMAW**

27 - 30

Ar gais y Cadeirydd, i dderbyn, er gwybodaeth, restr o prosiectau gwasanaethau Abermaw drafodwyd gan y Grwp Llywio Cymunedol.

(Copi'n amgaaedig)

## **9. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 14 Mawrth 2017.

# Eitem 5

## Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 22 Mawrth 2016 yn Theatr y Ddraig, Abermaw

### YN BRESENNOL

#### **Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams – Cadeirydd Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Is-gadeirydd**

Y Cyng. Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Y Cyng. Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Y Cyng. Mark James (Cymdeithas y Bad Achub), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Cheredigion), Mrs Wendy Ponsford (Clwb Hwyllo Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw), Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw)

### Swyddogion

Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Arthur Jones	-	Uwch Swyddog Harbyrau
Mr Glyn Jones	-	Harbwr Feistr Abermaw
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu
Mrs Mererid Watt	-	Cyfieithydd

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorwyr Louise Hughes, Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi), Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi), Y Cyng. R. A. Williams (BRIG), Mr Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned.

### 1. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

- (i) Y Cyng. Gethin Glyn Williams oherwydd ei fod yn aelod o'r Clwb Hwyllo
- (ii) Y Cyng. Julian Kirkham oherwydd ei fod yn perthyn i un o weithredwyr yr ysgraff

### 2. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 15 Hydref 2015.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

#### 2.1 **Materion yn Codi o'r cofnodion:**

##### **(a) Gaeafau Cychod**

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â gaeafu cychod ar ran o'r maes parcio, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn trafodaeth gyda Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch bod yr egwyddor yn dderbyniol ond bod angen trafodaethau ar sut i weinyddu'r trefniadau, cyfrifoldeb am y cychod, a.y.b. Bu trafodaethau ynglŷn â chost ar ffurf "bond" rhwng £300-£500 fel blaendal ar gyfer unrhyw lanhau byddai angen ar ôl symud y cychod. Fel ffordd ymlaen, awgrymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i Aelodau ofyn i'w cymdeithasau os oes diddordeb yn y ddarpariaeth uchod ac iddynt gofnodi eu diddordeb gyda'r Harbwr Feistr ac yna gellir ymrwymo i'r cynllun erbyn gaeaf nesaf.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r cymdeithasau gysylltu â'r Harbwr Feistr os oes unrhyw ddiddordeb gan unigolion i aeafu cychod ar ran o'r maes parcio, fel bo modd cwblhau'r trefniadau angenrheidiol ymhellach.**

**(b) Mynediad i Gadeiriau Olwyn ar y Promenâd**

Yn deillio o'r drafodaeth ynglŷn â chyflwyno cais am grant i Gronfa'r Loteri ar gyfer darparu mwy o fannau mynediad i gadeiriau olwyn ar y promenad, rhoddwyd diweddariad gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams nad oedd Grŵp Mynediad Meirionnydd wedi cyflwyno ceisiadau eu hunain ddim ond fel rhan o fudiadau eraill. Yn ychwanegol, ar hyn o bryd, roedd y Grŵp Mynediad yn brin o Ysgrifennydd a Thrysorydd. Teimlwyd hefyd pe byddai'r Cyngor Tref yn sefydlu Grŵp Mynediad Abermaw, byddai hyn yn darnio'r grŵp ehangach sef Grŵp Mynediad Meirionnydd. I ychwanegu at y broblem roedd y Cyngor wedi cael gwared a swydd Swyddog Anabledd. Deallir mai oddeutu 4 man o'r "Black Patch" i Westy'r Arbour sydd yn anghyraeddadwy i gadair olwyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Lansio o Bwynt Penrhyn**

Mewn ymateb i bryder ynglŷn â goruchwyliaeth lansio o Bwynt Penrhyn, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd gan y Gwasanaeth y capasiti i anfon staff i Bwynt Penrhyn ac mewn cydweithrediad a'r gymuned leol bod arwyddion wedi eu gosod yn yr ardal. O safbwynt potensial i gael gwirfoddolwyr i gynorthwyo, ni ragwelwyd unrhyw broblem pe byddai 3 / 4 unigolyn yn fodlon cynorthwyo o dan adain yr Harbwr Feistr, yn ddibynnol ar gymwysterau o safbwynt telerau yswiriant. Byddai'n fuddiol hefyd pe byddai gweithredwyr yr ysgraff yn gallu hysbysu'r Harbwr Feistr os ydynt yn gweld cychod yn lansio heb gofrestru.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trefn ffurfiol i'w ddilyn sef bod yn ofynnol i unigolion gwblhau ffurflenni PG1 (manylion yr unigolion) a PG2 (asesiad risg).

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelodau wneud ymholiadau gyda'u cymdeithasau er canfod gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r Harbwr Feistr gyda lansiadau heb eu cofrestru o Bwynt Penrhyn ac iddynt gysylltu gyda'r Harbwr Feistr, os oes unrhyw ddiddordeb.**

**3. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Cod Diogelwch Harbyrau**

Atgoffwyd Aelodau nad oedd y Cod Diogelwch yn statudol a byddir yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gan Aelodau ar faterion iechyd a diogelwch.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(B) Mordwyo ac Angorfeydd**

Adroddwyd:

- (i) Bod y Gwasanaeth wedi buddsoddi yn sylweddol yn y cymhorthion a oedd yn cynnwys goleuadau, cadwyni, a.y.b. ac o ganlyniad bod pob un ar ei safle priodol ar hyn o bryd.
- (ii) Bod angen gosod goleuadau ar rhai cymhorthyddion ond nid oedd y Gwasanaeth yn orbryderus gan fod gwyliau'r Pasg yn gynnwys eleni ac na fyddai efallai lawer o gychod ar y dŵr. Fodd bynnag sicrhawyd y byddai'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn eu gosod cyn gynted ag y bo modd.
- (iii) Y byddir yn ystyried buddsoddiad flwyddyn nesaf i osod bwi starbord ger y morglawdd fel bo modd i gychod ymwelwyr fordwyo i'r Harbwr yn rhwydd
- (iv) Derbyniwyd archwiliad gan Ty'r Drindod ynghyd ag awdit trylwyr ac o ganlyniad pwysleisiwyd i'r trefniadau gweinyddol fod i fyny i safon
- (v) Cytunwyd i beidio gwneud buddsoddiad yn y bwiau traeth heblaw'r porth wrth ymyl pont droed y rheilffordd
- (vi) Bod y Gwasanaeth wedi cysylltu hefo perchnogion angorfeydd ac allan o'r nifer o gwsmeriaid presennol derbyniwyd 60 o geisiadau hyd yma sydd yn lleihad o'i gymharu a'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nodwyd bod y trend morwrol yn lleihau ymhob harbwr
- (vii) Pwysleisiwyd na fyddir yn caniatáu cychod angori yn yr harbwr oni bai bod y gwaith gweinyddol ysgrifenedig yn gyflawn a chywir sy'n cynnwys dogfennaeth yswiriant, tystysgrif angorfa, a.y.b.
- (viii) Fe fyddir yn gofyn i'r contractwr lleol dynnu'r angorfeydd sydd ddim mewn defnydd ac ni fydd unigolion yn cael hawlio lleoliadau penodol

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(C) Materion Harbwr**

Adroddwyd:

- (i) Bod oddeutu £8,000 wedi ei fuddsoddi i atgyweirio'r pontŵn llynedd ac erbyn hyn wedi bod yn rhan o gyfrifoldeb y Gwasanaeth Harbwr ac ni wyddys pa mor hir y gellir ei gynnal a'i gadw o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a chyn lleied o incwm yn dod ohono. Pwysleiswyd mai at ddefnydd ymwelwyr yn unig ydoedd bwriad y pontwn ac y byddai'r Harbwr Feistr yn monitro'r defnydd. Nodwyd ymhellach y byddir yn trefnu i roi'r bysedd yn ol ar y pontwn yn fuan.

Mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau unigol, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Bod yn rhaid cael rheolaeth ar gychod lleol sy'n angori ar y pontwn
  - O safbwynt cwch yr Harbwr wedi ei angori ar y pontwn, bod llawer o waith atgyweirio ar y cwch ac fe fyddai'n rhaid ystyried ffyrdd amgen o gyrraedd at y cwch megis trefniadau fel sy'n bodoli yn Aberdyfi sydd wedi angori gyda chwch gweini ar gael i fynd ati
  - Nid cyfrifoldeb yr Harbwr Feistr ydoedd ymateb i argyfwng yn yr Harbwr ond yn hytrach i'r Gwasanaethau Brys a'r Bad Achub ond wrth gwrs fe fyddai'r Gwasanaeth Morwrol yno i gynorthwyo pe byddai angen
- (ii) Bod oddeutu 47 ciwb medr o goncrid wedi ei ddefnyddio i atgyweirio'r gerddi, 1,000 litr o resin ynghyd a 16 ciwb medr i wal y cei ac nid oedd hyn yn ddigonol i lenwi'r gwagleoedd.

- (iii) Hyderir y byddai'r ysgraff yn gweithredu erbyn y Pasg ond apeliwyd ar y gweithredwyr i gyflwyno ceisiadau am drwydded mewn da bryd gan nad oedd diwrnod neu ddau o rybudd yn ddigonol i'r Gwasanaeth Morwrol fedru eu prosesu.

Nododd Aelod bod yn rhaid bod yn llym o safbwynt derbyn ceisiadau mewn pryd i'w prosesu ac y dylid nodi na fydd unrhyw drwydded yn cael ei brosesu oni bai bod y ddogfennaeth briodol wedi eu cyflwyno erbyn y dyddiad dynodedig.

- (iv) Bod trefniadau mewn lle ar gyfer y consesiynau traethau er mwyn cael gwell rheolaeth ar weithgareddau glan y môr. Hysbysebiri y consesiynau yn y papurau lleol gan wahodd unrhyw fusnes i gyflwyno cais. Byddir wedyn yn asesu'r ceisiadau er mwyn sicrhau bod pob consesiwn yn cydymffurfio a'r gofynion priodol. Derbyniwyd un cais cyflawn ar gyfer gweithgareddau trampolîn / siglenni / mulod.
- (v) O safbwynt symud tywod, nodwyd nad oedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn symud tywod eleni ond fe fyddir yn ceisio cadw'r llwybrau yn glir dros fisoedd yr haf. Ychwanegwyd bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni yn y gorffennol ond nad oedd cyllideb ar gael i logi peiriannau i'w symud ond byddai'r Harbwr Feistr yn monitro'r sefyllfa.

Adroddodd y Cadeirydd bod oddeutu 15-20 tunnelli o dywod wedi ei symud yn y gorffennol a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Cyngor Tref, Cynllun Rheoli Traethlinau, ac eraill ar gyfer datrys y broblem yn y tymor hir ac fe fyddir yn rhoi ystyriaeth i'r twyni, "marram grass", gweithgareddau, a.y.b.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

#### **(CH) Cyllidebau Harbyrau**

Cyflwynwyd taflen yn crynhoi'r cyllidebau i'r Aelodau a thywyswyd hwy drwy'r penawdau gan dynnu sylw bod targed incwm yr Harbwr yn £45,100 gyda £43,637.69 eisoes wedi ei wario a diffyg o £9,296.91 ar ddiwedd Chwefror 2016.

Cyfeiriwyd at y ffioedd a thaliadau a fydd yn codi 1% ar gyfer 2016-17. Tynnwyd sylw bod ffi trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith wedi lleihau i gyfiawnhau nad oedd darpariaeth mewn rhannau penodol o'r môrgainc.

Tynnwyd sylw bod cyfanswm targed incwm yr Harbyrau yn oddeutu £2m gyda chwyddiant ar incwm yn 0.70%.

Pwysleiswyd bod blwyddyn heriol yn wynebu'r Gwasanaeth o safbwynt cyllidebau / toriadau ac mai dim ond cyfrifoldeb dros y traethau hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn derbyn gwobr Baner Las fyddai'n syrthio ar y Gwasanaeth Harbwr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

#### **(D) Staff Harbwr**

Adroddwyd:

- bod swydd Cymhorthydd Harbwr wedi ei hysbysebu gyda chyfweliadau i'w cynnal yn fuan.
- Y byddai'r Harbwr Feistr a'r Uwch Swyddog Harbyrau ar ddyletswydd dros wyliau'r Pasg
- Hyderir y byddir yn penodi 4 Swyddog Traeth ar gyfer y tymor



- Apeliwyd ar Aelodau i gysylltu gyda'r Harbwr Feistr, os oes unrhyw waith a ragwelir i'w gwblhau neu os oes ganddynt bryder ynglŷn ag unrhyw fater

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

#### **(E) Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru parthed ymgynghoriad ar ardaloedd cadwraeth arbennig arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr Harbwr ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig arfaethedig newydd ac estynedig ar gyfer adar y môr.

Nodwyd, mewn ymateb i ymholiad, nad oedd y Gwasanaeth yn cyflwyno ymateb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

#### **(F) Gwasanaeth Cofio - Cwch Fferi'r "Prince of Wales"**

Deallwyd bod bwriad i gynnal Gwasanaeth Cofio'r trychineb uchod ar 22 Mehefin 1966 gyda Chyngor Tref Dolgellau yn arwain. Bu i'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn gwrdd gyda Chyngor Tref Dolgellau. Teimlwyd y dylai'r plac coffa gael ei osod ar dir y Parc Cenedlaethol. Nodwyd pryder ynglŷn â'r oediad mewn gwneud cysylltiadau.

Yn ogystal teimlwyd y dylai dau unigolyn sef Mr Ron Davies o Bontddu ac Mr Williams o Brithdir a oedd yn gweithio i'r Cyngor ar y pryd dderbyn cydnabyddiaeth am eu dewrder mewn achub bywyd bachgen bach 7 mlwydd oed o'r trychineb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### **4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

#### **(a) Marciau Mordwyo**

Adroddwyd bod yr uchod wedi ei drafod fel rhan o adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

#### **(b) I ystyried cael arwyddion i rybuddio'r cyhoedd o'r newid yn nyfnder y Sianel ger y Clwb Hwyllo**

Cyfeiriwyd at y ddau lun oedd ynghlwm i'r rhaglen yn dangos cwmpiad o 5-6 troedfedd yn y sianel ac fe nodwyd pryder ynglŷn â diogelwch y cyhoedd o ganlyniad i hyn.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Harbwr Feistr osod arwyddion "Glannau Serth" (Steep Banks) yn ogystal â hysbysebu morwyr o fannau diogel i lansio cychod.**

#### **(c) Cais i ddosbarthu cofnodion ynghynt er mwyn i gynrychiolwyr fedru briffio'r grwpiau maent yn cynrychioli**

Adroddodd y Swyddog Cefnogi Aelodau y ceisir gosod y cofnodion ar wefan y Cyngor o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod ond bod hyn yn ddibynnol ar lwyth gwaith. Yn y cyfamser roedd wedi anfon linc o'r safle lle gosodir y rhaglenni/cofnodion i Cyng. Rob Triggs fel bo modd iddo anfon y linc ymlaen i'r unigolion perthnasol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ch) Polyn peryglus yng ngwaelod y llithrfa yn Harbwr Aberamffra**

Gwnaed cais gan gynrychiolydd y Clwb Hwyllo i dynnu'r polyn peryglus yn Harbwr Aberamffra.

Deallir mai gweddillion hen long ydoedd ac y byddai'n ofynnol i gael 4 aelod o staff i'w dorri. Roedd gwahaniaeth barn ymysg yr Aelodau o'i dynnu ai peidio gan nad oedd yn creu perygl o safbwynt mordwyo ond fel cyfaddawd gellid gosod bwi ar y safle.

Yn dilyn pleidlais ar y mater:

**Penderfynwyd: I beidio tynnu'r polyn yn Harbwr Aberamffra.**

**(d) Tywod – beth ellir ei wneud?**

Adroddwyd gan gynrychiolydd y Clwb Hwyllo bod tywod sylweddol i fyny ochr gogleddol o'r compownd ac ni welwyd cymaint â hyn yno o'r blaen ac y byddai'n creu trafferthion i gael y cychod allan.

Eglurodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid bod yn rhagweithiol drwy gysylltu â Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrdd sydd yn gyfrifol am y maes parcio. Fodd bynnag hyderir y gellir datrys y broblem yn yr hir dymor.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd: Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Mawrth, 8 Tachwedd 2016.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.10 p.m.

**CADEIRYDD.**

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>08 Tachwedd 2016</b>
<b>TEITL</b>	<b>Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion yn ymwneud ac Harbwr Abermaw.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod Mawrth 2016 hyd at Hydref 2016.

## 2. Harbwr Abermaw

- 2.1 Yn 2016/17 roedd niferoedd cychod ar angorfeydd yn yr Harbwr fel a ganlyn; -  
  
Roedd cyfanswm 88 cwch ar angorfa flynyddol yn 2016. Mae hyn yn cymharu gyda 93 cwch a fu ar angorfa yn 2015. Mae yn siomedig adrodd fod 5 cwch wedi gadael ar ddiwedd 2015/16 ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu ymgysylltu gyda'r cwsmeriaid er ceisio derbyn rheswm dros adael yr Harbwr. Bwriedir adrodd ar ganlyniad yr ymholiad yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2017.
- 2.2 Ar y cyfan, gwelwyd lleihad bychan mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf ym mhob Harbwr ac hefyd yn Hafan Pwllheli. Yr unig eithriad o gysondeb yn y nifer gychod ar angorfeydd oedd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon.
- 2.3 O'r nifer cychod sydd ar angorfa yn yr Harbwr mae 67% yn gychod pwer gyda 33% yn gychod Hwyllo. Mae 60% o'r cwsmeriaid yn breswyl yng Ngwynedd gyda 32% yn breswyl tu allan y sir.
- 2.4 Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2016 y byddai'r Harbwr Feistr yn sicrhau na fod unrhyw angorfa yn cael ei ganiatáu i barhau yn yr Harbwr oni bai fod perchennog yr angorfa yn talu ffi am yr angorfa i'r Cyngor.
- 2.1 Cofrestrwyd 1001 o Gychod Pwer yng Ngwynedd yn 2016 sydd yn cymharu gydag 989 a fu wedi cofrestru yn 2015. Roedd 82 cwch pwer wedi cofrestru yn harbwr Abermaw sydd yn cymharu gyda 71 cwch a fu wedi cofrestru yn 2015.
- 2.2 Cofrestrwyd 729 o Fadau Dwr Personol yng Ngwynedd yn 2016. Cymharai hyn gydag 699 a fu wedi cofrestru yn 2015. Yn Harbwr Abermaw fe gofrestrwyd 67 Bad Dwr Personol ac mae hyn yn cymharu gydag 64 Bad Dwr Personol a fu wedi cofrestru yn 2015.

## 3. Cod Diogelwch Morwrol

- 3.1 Mae copi gwreiddiol o'r Cod Diogelwch Morwrol eisoes wedi ei ddsbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor ac mae hefyd ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd. Mae'r Uwch Swyddog Harbyrau yn adolygu'r Cod Diogelwch. Rydym yn mawr obeithio bydd Uwch Arolygydd Gwylwyr y Glannau yn ymweld â'r Cyngor yn fuan yn 2017 er archwilio'r Cod Diogelwch a chyflwyno adborth ar y Cod sydd yn berthnasol i harbyrau bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd. Deallir bydd yr archwiliwr yn ymweld â pop Harbwr yng Ngwynedd ac yn treillio sawl diwrnod yn archwilio'r harbyrau. Rhagwelir bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Harbwr yn dilyn ymchwiliad yr archwiliwr.

- 3.2 Er bod y Cod Diogelwch yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod derbyn sylwadau a barn y Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i Weithgareddau, diogelwch a gwaith Harbwr Abermaw.
- 3.3 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth yn ystod 2016 sydd yn berthnasol i ddyletswyddau statudol yr Harbwr. Mae materion yn ymwneud a diogelwch y cyhoedd wedi eu cyflwyno at ein sylw mewn perthynad a defnydd ysgraff yn nyfroedd yr Harbwr. Mae pob achos wedi ei archwilio a chanlyniad yw na fod unrhyw fater yn disgyn oddi fewn gofynion y Cod Diogelwch.
- 3.4 Ar y 7fed Awst 2016 fe aeth dau fachgen ifanc i drafferthion wrth ymdrochi yn nyfroedd sydd oddi fewn awdurdodaeth yr Harbwr. Aeth y ddau fachgen ifanc i drafferth yn y môr gyferbyn a Gorsaf Y Bad Achub. Collodd y ddau fachgen eu bywydau er ymdrechion y Gwasanaethau Brys a staff Morwrol a Pharciau i'w cynorthwyo. Roedd y tywydd yn wyntog iawn ar y pryd gyda'r gwynt yn chwythu o gyfeiriad y de orllewin. Roedd y llanw yn uchel ar y diwrnod hwn ac fe roedd y llanw ar drai pan oedd y ddau fachgen ifanc wedi mynd i'r dwr. Fe fydd y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau, mewn ymgynghoriad ac asiantaethau eraill, yn cynnal adolygiad o arwyddion er ceisio gwella'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno i ymwelwyr a defnyddwyr y traeth.
- 3.5 Ar y 3ydd Awst 2016 fe ddaeth cwch a fu wedi angori yn yr Harbwr ddod yn rhydd o'i angorfa ac fe'i llusgwyd gan y llanw i gyfeiriad pont y rheilffordd. Roedd y gwynt yn chwythu yn gryf iawn ar y noson ac fe roedd monitor yr Harbwr wedi nodi fod cryfder y gwynt yn 55 milltir yr awr ar adegau. Fe roedd angen cau'r rheilffordd am gyfnod byr er mwyn galluogi Gwylwyr y Glannau i dynnu'r cwch oddi ar y bont ac i alluogi archwilwyr y rheilffordd i archwilio'r bont er sicrhau na chafodd difrod ei achosi i'r bont. Fe dynnwyd y cwch oddi ar strwythur y bont am oddeutu 21.30 gyda chymorth y Bad Achub.

#### **4. Materion Gweithredol**

##### **4.1 Mordwyo**

- 4.1.1 Cafwyd archwiliad gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Ty'r Drindod ar y 26ain Gorffennaf 2016. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2016 yn cadarnhau gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Abermaw.
- 4.1.2 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chaniatâd, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa bresennol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan y Prif Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.
- 4.1.3 Nid oes unrhyw Rybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Abermaw.
- 4.1.4 Ar yr 22ain Hydref 2016 gosodwyd Cymhorthydd Mordwyo newydd yn yr Harbwr gan Dy'r Drindod a fu yn gweithredu ar ran Dwr Cymru. Mae'r cymhorthydd mordwyo newydd wedi ei leoli gyferbyn a Gorsaf Gwylwyr y Glannau ar leoliad - Hydred. 52° 43.602'N, Lledred. 004° 04.203'W.
- 4.1.5 Pwrpas y cymhorthydd yw gwarchod y bibell arllwys ac arwain cychod rhag croesi'r pibell sydd yn gorffwys ar wyneb gwely'r môr. Mae'r Gwasanaeth wedi tynnu sylw at beryglon gweddillion y cymhorthydd mordwyo sydd yn parhau ar y safle. Mae Dwr Cymru wedi derbyn rhybudd bod angen tynnu gweddillion y cymhorthydd oddi ar y bibell fel mater brys gan fod y polyn sydd weddill yn achosi perygl i gychod sydd yn parhau yn yr ardal yn enwedig ar ben llanw.

## 4.2 **Cynnal a chadw**

- 4.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Abermaw gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.
- 4.2.2 Bydd yr Uwch Swyddog Harbyrau yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2016 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

## 4.3 **Materion Staff**

- 4.3.1 Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Abermaw (tymhorol) wedi dod i ben ers y 30ain Medi 2016. Er sicrhau cefnogaeth a parhad i'r gwasanaeth ar draws y sir mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr Abermaw ac Aberdyfi wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2016.
- 4.3.2 Fe fydd y ddau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm Morwrol ehangach er sicrhau bod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Abermaw, Porthmadog ac Aberdyfi dros fisoedd y gaeaf. Mae lleoliad gwaith Cymhorthydd Harbwr Abermaw wedi ei ail leoli i Borthmadog am y cyfnod cychwynnol er sicrhau cymorth ychwanegol ym Mhorthmadog dros y cyfnod cychwynnol.
- 4.3.3 Yn ystod 2016 derbyniwyd saith cais gan unigolion a fydd gyda diddordeb mewn gwirfoddoli i weithio yn Harbwr Abermaw. Mae hyn yn galonogol iawn ac rydym yn gwerthfawrogi'r cynnig caredig a dderbyniwyd gan bob un o'r unigolion. Er mwyn sicrhau diogelwch y gwirfoddolwyr fe fydd angen cynnal adolygiad llawn o'r dyletswyddau a fydd bosibl iddynt ei gwblhau. Fe fydd angen hefyd sicrhau rota pendant er sicrhau na fod nifer wirfoddolwyr yn gôr gymhlethu rheolaeth unrhyw brosiect.

## 4.4 **Materion Eraill**

- 4.4.1 **Pontwn yr harbwr.** Ers i'r pontwn gael ei osod ar wal y cei ger adeilad yr 'SS Dora' mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn sylweddol mewn gwaith cynnal a chadw'r pontwn. Yn ychwanegol i'r gwaith a chostau cynnal a chadw mae staff Morwrol a Pharciau Gwledig yn archwilio'r pontwn yn rheolaidd gan fod y tywydd a thonnau yn cael effaith niweidiol ar y pontwn.
- 4.4.2 Yn dilyn sawl archwiliad daethpwyd i'r canlyniad fod bysedd a fu wedi ei gosod ar y pontwn yn cael effaith niweidiol ar y prif strwythur ac na fod yn briodol neu yn addas i barhau gyda gosod bysedd y pontwn ynghlwm i brif gorff y strwythur. Fe fyddai yn briodol ail gysylltu'r bysedd i'r brif pontwn am gyfnodau byr iawn yn unig ac ar gyfer digwyddiadau penodol. Ni fyddai hyn yn bosibl pe byddai rhagolygon tywydd yn anffafriol.
- 4.4.3 Ni osodwyd y bysedd angori yn 2016 ac yn anffodus iawn ni ragwelir bydd y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig gyda'r cyllid neu adnodd i barhau i gynnal a chadw'r pontwn pe bydd costau cynnal a chadw uchel yn ein hwynebu at y dyfodol.

- 4.4.4 Mae'r Gwasanaeth yn barod iawn i gydweithio gyda'r gymuned a grwpiau lleol er sicrhau fod y pontwn, yn ei drefn bresennol, ar gael i ddefnyddwyr yr Harbwr. Pe byddai yna ddifrod sylweddol pellach yn cael ei achosi i'r pontwn yna fe fydd rhaid adolygu dyfodol y pontwn fel mater brys.
- 4.4.5 Mae'r bysedd a fu yn rhan o'r strwythur wedi eu angori a diogelu yn ardal y Baddon. Fe fydd angen penderfyniad y Pwyllgor ar ddefnydd y bysedd at y dyfodol wrth ystyried na fod yn debyg bydd y Gwasanaeth yn caniatáu i ail osod y bysedd ar brif strwythur y pontwn at y dyfodol.
- 4.4.6 **Trwyddedau Ysgraff.** Awdurdodwyd tri Trwydded Perchennog yn ystod 2016. Tra bod gwelliant yn y drefn rheolaeth fe fydd y Gwasanaeth yn cysylltu gyda dalwyr y Drwydded Perchennog dros fisoedd y gaeaf i bwysleisio nifer faterion a godwyd yn 2016 ac i adolygu trefniadau 2017.
- 4.4.7 Yn 2017 fe fydd llywiwr yr ysgraff yn cael eu gorfodi i ddilyn cwrs penodol yn yr Harbwr pan fyddent yn mor deithio rhwng Pwynt Penrhyn ac Abermaw a hyn ar adegau pan fydd y llanw yn caniatáu. Atodir cynllun draft gan ofyn barn yr Aelodau ar y cwrs mordwyo a fu angen i bob ysgraff ei ddilyn.
- 4.4.8 **Ymgynghoriad Gwylwyr y Glannau.** Mae'r llywodraeth yn ymgynghori ar newid bosibl mewn deddfwriaeth Gwastraff Porthladdoedd ac mae cyfle i Aelodau gyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r newidiadau yn diddymu MGN 253,259 ac 326. Tra bod newid yn y ddeddfwriaeth ni fydd hyn cael effaith ar Gynllun Darpariaeth Gwastraff Harbyrau yng Ngwynedd. Deallir bydd y newid yn y ddeddfwriaeth yn dod i rym ar y 9fed Rhagfyr 2016.

Mae'r holl ddogfennau ar gael ar y safle we isod.

<https://www.gov.uk/government/consultations/implementation-of-directive-20152087-by-means-of-the-merchant-shipping-and-fishing-vessels-port-waste-reception-facilities-amendment-regulations>

## 5. Materion Ariannol

- 5.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol yn atodol.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -
- Cynnal a chadw a pwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
  - Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
  - Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
  - Cynnal a chadw tiroedd a pontwn.
- 5.3 Mae'r cyllidebau yn cael eu monitro yn fisol ac mae Adolygiad Ail Chwarter wedi ei gynnal yn ystod yr wythnos cyntaf ym mis Hydref. Mae'r atodiad yn adlewyrchiad o'r adolygiad 2il Chwarter.
- 5.4 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18.** Atodir taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Abermaw 2017. Rhagwelir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2017/18 yn 1.85%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth awgrymir fod ffioedd Harbwr Abermaw yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

5.5 Pwysleisir mai drafft yn unig sydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio yn fuan yn 2017.

## **6. Digwyddiadau**

6.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau canlynol yn Harbwr Abermaw yn 2016: -


- Digwyddiad mawreddog Ras y Tri Phigyn a gynhaliwyd ar yr 11eg Fehefin 2016. Cynhelir ras 2017 ar yr 17eg Fehefin pan bydd y Ras yn dathlu Pen-blwydd yn 40eg oed. Disgwylir nifer fawr o gychod yn y gystadleuaeth ac fe fydd y Gwasanaeth yn cynnig pob cymorth bosibl er ceisio sicrhau fod y ras yn llwyddiannus unwaith yn rhagor.
- Digwyddiad 'Paddlefest y Fawddach' a gynhaliwyd ar y 25 a 26ain Mehefin 2016. Fe fydd gwyl 'Paddlefest Y Fawddach' 2017 yn cael ei gynnal ar y 15fed ac 16eg Fehefin.

# HARBWR ABERMAW HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod Comparison of Boat Statistics

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer o Gychod / Number of Boats</b>	94	91	92	82	93	88
<b>Cyfanswm Hydoedd / Total LOA</b>	712.84	691.38	696.16	610.37	671.20	627.64
<b>Cyfartaledd Hyd / Average Length</b>	7.58	7.6	7.57	7.44	7.21	7.13
<b>Cyfanswm Dyfnder / Total Draught</b>	83.42	81.92	83.82	76.45	82.89	77.96
<b>Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught</b>	0.89	0.9	0.91	0.93	0.89	0.86


**Nifer o Gychod / Number of Boats**




**Cyfanswm Hydoedd / Total Length**




**Cyfartaledd Hyd / Average Length**



**Cyfanswm Dyfnder / Total Draught**



**Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught**





# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2016

## COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2016




Harbwr Harbour	Nifer o Gychod Number of Boats	Cyfanswm Hydoedd Total Overall Length	Cyfartaledd Hyd Average Length	Cyfanswm Dyfnder Total Draught	Cyfartaledd Dyfnder Average Draught
Abermaw	88	627.64	7.13	77.96	0.86
Aberdyfi	79	524.10	6.63	57.36	0.73
Porthmadog	129	1055.12	8.18	127.50	0.99
Porthelli	58	463	7.98	55.54	0.96
17					
Cyfansymiau holl harbrau Totals of all harbours	<b>354</b>	<b>2669.86</b>	<b>29.92</b>	<b>318.36</b>	<b>3.54</b>
Cyfartaleddau holl harbrau Averages of all harbours	<b>88.50</b>	<b>667.47</b>	<b>7.48</b>	<b>79.59</b>	<b>0.89</b>


# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.

## Analysis of boat statistics at each harbour.

Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hyd / Total LOA




Cyfartaledd Hyd / Average LOA

Tud. 18

Metrau / Metres




Cyfanswm Dyfnder / Total Draught



Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught

Metrau / Metres



# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig  
 Maritime and Country Parks Unit

---

## Rhybydd Morwriaeth Lleol - Local Notice to Mariners

---

Harbwr Abermaw Harbour Lleoliad Cymhorthyddion Mordwyo Positions Aids to Navigation			
Fairway	LFlw 10s	52° 42.722'N	004° 04.934'W
Bar Buoy 1	Q FL G	52° 42.652'N	004° 04.167'W
No 2	Q FL R	52° 42.698'N	004° 04.187'W
No 4	FL R(2)5s	52° 42.738'N	004° 03.972'W
No 6	FL R (3)10s	Q FL R	52° 42.770'N
North Bank Perch	Q6 FL 15s	52° 42.822'N	004° 03.729'W
Breakwater	FL R 5s	52°42.595'N	004° 03.786'W
No 3 Inner	Fl G 1.5s	52° 42.998'N	004° 03.086'W
Railway Bridge	2 FR (Vert)	52° 43.144N	004° 02.685W
Barmouth Outfall	Fl Y 10s	52° 43.190'N	004°05.331'W
Beach Outfall (G)	Unlit	52° 43.602'N,	004° 04.203'W

Economi a Chymuned  
**Economy and Community**  
Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig  
Maritime and Country Parks Service  
Rheolwr/Manager – Barry Davies



# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig  
Maritime and Country Parks Unit


---

## **Rhybydd Morwriaeth Lleol - Local Notice to Mariners**


---

*Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Officer*  
01766 512927 – 07879433147  
*barrydaviestec@gwynedd.gov.uk*





July 1, 2016



<b>Morwrol a Pharciau</b>						
<b>DG54-ABERMAW</b>		<b>Diwedd Medi 2016</b>				
<b>GRWP</b>	<b>CYFRIF</b>	<b>DISGRIFIAD</b>	<b>CYLLIDEB</b>	<b>GWARIANT</b>	<b>YMRWYMIAD</b>	<b>GOR (TAN)</b>
Staff	AGWE	Costau Staff	49,370	21,107	16,642	(11,621)
Eiddo	BEID	Tiroedd ac Eiddo	5,230	1,408	2,860	(962)
Trafnidiaeth	CTRA	Cwch a Cherbydau	720	201	350	(169)
Offer a Chelfi	DCYF	Offer a Chelfi	9,560	3,482	4,000	(2,078)
Incwm	INCM	Incwm Harbwr	(45,480)	(28,945)	(5,203)	11,332
Cyfanswm	CYF	Cyfanswm	19,400	(2,747)	18,649	(3,498)



**Harbwr Abermaw Harbour  
2017/18**

<b>Eithrio T.A.W</b>	<b>2016-17</b>		<b>2017-18</b>	<b>Prices exclude V.A.T</b>
	<b>1%</b>		<b>2%</b>	
Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Pob Cwch gan gynwys Ysgraff	<b>28.02</b>		<b>28.58</b>	Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues – All Craft including Ferries
Tollau Harbwr y fedr – pob cwch	<b>5.05</b>		<b>5.15</b>	Harbour Dues per meter – all vessels
Trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith	<b>25.47</b>		<b>25.98</b>	Penrhyn Point Mooring License
<b>Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)</b>	<b>Fel rhestr lansio</b>		<b>Fel rhestr lansio</b>	<b>Slipway charges power boats over 10HP (not PW)</b>
<b>Cychod bychain, peiriant 10HP</b>	-			<b>Small boats engine, max 10HP</b>
Dyddiol	<b>8.33</b>		<b>Fel rhestr lansio</b>	Daily
Tymhorol	<b>50.00</b>			Seasonal
<b>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</b>				<b>Visiting Vessels – Daily or part of day</b>
Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd	<b>5.00</b>		<b>5.00</b>	Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders
Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall	<b>8.33</b>		<b>8.33</b>	Visiting Vessels-All other pleasure vessels
Cychod cario teithwyr y <b>fedr</b> + Tollau Harbwr	<b>24.26</b>		<b>Diddymu Withdrawn</b>	Passenger carrying vessels <b>per metre</b> + Harbour Dues per meter
Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr	<b>24.26</b>		<b>Diddymu Withdrawn</b>	Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter
Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd	<b>54.13</b>		<b>55.22</b>	Commercial vessels visiting per day or part of day
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Pysgotwyr llawn amser	<b>294.11</b>		<b>299.99</b>	Harbour compound (per annum) – Full time fishermen
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol harbwr	<b>316.90</b>		<b>323.24</b>	Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol eraill	<b>366.16</b>		<b>373.48</b>	Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.
Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel	<b>93.04</b>		<b>94.90</b>	Penalty Costs – Removal of refuse
Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M <sup>2</sup> yr wythnos.	<b>4.24</b>		<b>4.32</b>	Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M <sup>2</sup> per week.
Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi	<b>5.54</b>		<b>5.71</b>	Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September
Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr	<b>5.60</b>		<b>5.71</b>	Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs
Rhent llogi angorfa Abermaw (os ar gael)	<b>249.39</b>		<b>254.37</b>	Mooring Rental Abermaw (if available)
Diddymu cais angorfa. Gorddewisol	<b>Rheol/Rule 1/18</b>		<b>Rheol/Rule 1/18</b>	Cancellation of mooring application. Discretionary



DRAFT

# Eitem 7

## 1) Gorsaf Tanwydd Petrol

Yn ychwanegol at y cyfleuster disel presennol a gynigir gan Gyngor Gwynedd, mae aelodau Grŵp Defnyddwyr Harbwr Bermo wedi awgrymu y byddai o fudd i awdurdod a defnyddwyr yr harbwr pe byddai cyfleuster tanwydd petrol hefyd yn cael ei gynnig.

Awgrymwyd y byddai cyfleuster o'r fath nid yn unig yn annog cychod hwylio modur i ymweld a darparu incwm ychwanegol i awdurdod yr harbwr, ond roedd y diffyg dewis yn y Bermo yn annog pobl i deithio gyda swm mawr o danwydd mewn cynhwysyddion ac nid oedd hyn yn ddelfrydol a gallai fod yn beryglus. Awgrymwyd hefyd bod perchnogion cychod oedd yn llenwi tanciau o gynhwysyddion, yn aml heb yr offer cywir, yn gallu bod yn beryglus o ran halogi'r harbwr a'r amgylchedd morol.

Cydnabyddwyd y peryglon posib, y cyfyngiadau a'r trafferthion o ddarparu cyfleuster o'r fath, ond roedd aelodau GDHB yn annog CG i o leiaf ystyried gwelliant o'r fath i gyfleusterau'r harbwr.

## 2) Angorfeydd

i) O safbwynt y taliadau angorfeydd blynyddol, pe na byddai angorfa wedi ei defnyddio a oedd yna bolisi i godi tâl is neu ffi cadw? Os nad oedd, a fedrai'r Cyngor ystyried polisi o'r fath?

ii) Cadarnhad o fanyleb offer gwely'r môr. A oes yna unrhyw amodau ar gyfer offer gwely'r môr, ydy hyn yn gymwys i'r holl angorfeydd neu a yw'r rhai ar gyfer angorfeydd dros dro yn wahanol i angorfeydd parhaol? Pwy sy'n gyfrifol am angorfeydd, dros dro a pharhaol, pe byddent yn llusgo ac yn achosi niwed i drydydd parti?

iii) O safbwynt poeni am ddiogelwch roedd aelodau GDHB yn gofyn fod angorfeydd y Tri Chopa yn y fynedfa i'r harbwr yn cael eu marcio gyda bwi goleuedig.

## 3) Bysedd y pontŵn

Pam nad yw bysedd y pontŵn wedi bod yn eu lle yn ystod y tymor yma? Os yw CG yn ystyried bod problem gyda nhw, a oes unrhyw gynlluniau i ddatrys y broblem ac i'w hailosod ar gyfer y tymor nesaf?

## 4) Pysgod Marw

Yn ystod mis Medi gwelwyd gweddillion dros 270 o hyrddiaid (*mullet*) wedi eu ffiledu yn llanast yn yr harbwr. Mynegwyd pryder gan aelodau GDHB am faterion amgylcheddol a'r effaith y gallai pysgota eithafol o'r fath ei gael ar boblogaeth yr hyrddiaid. A oedd y Cyngor yn ymwybodol o hyn, ac os felly, a yw wedi neu'n bwriadu gweithredu unrhyw gamau?

## Prosiect Gwasanaethau Abermaw / Barmouth Services Project

Rhestr Asedau / gwasanaethau i'w hystyried ar y cam cynllunio busnes ar gyfer trosglwyddiad fel drafodwyd yng nghyfarfod y Grwp Llywio Cymunedol 11/04/16.

List of Assets /services to be considered at business planning stage for transfer as discussed at meeting of the community steering group 11/04/16

Ased / Asset
Ty Gwyn Caffi ac amgueddfa / Ty Gwyn Café and museum (est 4852)
Tir ger / Land near bwthyn Carron
Borthwen, Pont y Bermo (A034)
Adeilad SS Dora building
Ty Crwn - a thir o gwmpas / and surrounding land
Swyddfa'r Harbwr Feistr / Harbour Master Office
Adeiladau'r Parc / Parc Buildings <ul style="list-style-type: none"><li>• Lawnt fowlio / Bowling green</li><li>• Cyrtiau Tennis / Tennis courts</li><li>• Grin Bytio / Putting green</li></ul>
Cellfechan (est X6999/4)
Carreg y Cribyn (old quarry)
Tir tu ol / Land behind Noddfa
Gerddi Orielson (est X6999/4)

Tud. 27

Eitem 8


Gerddi'r Traphont / Viaduct Gardens (est x6999/2)
Gerddi'r Twnel / Tunnel Gardens (est x413)
Wernmynach
Llyfrgell / Library
Orielton woods
Tolldy / Tollhouse/walkway
Panorama walk Rhan o'r tir ym mherchnogaeth y Cyngor / Part o the land in the Council's ownership
Rhandiroedd tu ol / Allotments behind St John's Church above Gloddfa Rd Grid reference: SH613160
The Romping adjacent to a house "Deronda" piece of land gifted to the people of Barmouth grid reference: SH612160
Pob elfen yn ymwneud a rhediad yr Harbwr / All aspects concerned with the running of the harbour i.e slips etc
Traeth / Beach
Prom

<b>Gwsanaethau / Services</b>
Gwasanaeth toiledau / Service of toilets at Cambrian Court
Llwybrau / Footpaths
Rheoli tir agored / Managing open lands
Rheoli pob elfen o'r harbwr / traeth a'r prom / Managing all aspect of harbour/beach and prom

- **Clarity on why the beach concessions have been change to land concessions this year. Could have liability implications on the adjacent land owner .**
- Er mwyn ffurfioli'r broses, penderfynnwyd gwahodd ceisiadau ar gyfer consesiynau ar y traeth a'r prom eleni. Mae trwyddedau defnydd tir wedi eu paratoi. Mae gen i ofn nad ydwi'n ymwybodol o'r broses cyn eleni gan nad oedd yr adran eiddo ynghlwm a'r broses. Gellir darparu copi draft o'r drwydded os ydi hyny'n help.

*In order to formalise the process, the property department invited applications for beach concessions this year. The department have land use licences prepared. Copies of the licences can be provided.*

# Prosiect Gwasanaethau Abermaw



Dyblygu'r ymarfer hwn (a amlinellir mewn coch) ar gyfer yr holl asedau a nodwyd o fewn y dref.

- sesiwn taflu syniadau
- opsiynau rhestr hir
- opsiynau Rhestr Fer
- Opsiwn(ynau) dewisol
- cyrifon Menter
- Nodi manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd

**Asesiad Cyffredinol o Ddichonoldeb—Gwarged / Diffyg (Cynllun Ariannol)**

**Asesiad o Fenter Endid Cyfreithiol a ffafrir \***

**Prisiant Asedau a Drosglwyddir**

**Asesiad Economaidd, Amgylcheddol a Budd Cymdeithasol**

Cynnig o drosglwyddo Asedau i Gyngor Gwynedd (Cynllun Busnes Llawn)

Opsiwn ① Heb iffrwd incwm ychwanegol Opsiwn ② Cais am Ffrwd Incwm Ychwanegol

\* Bydd yr asesiad o endid cyfreithiol ffafrir hefyd yn chwarae rhan yn yr asesiad menter unigol a amlygwyd yn yr amlinelliad coch uchod.